# Canllawiau ar y Datganiad Polisi Rhaglenni a'r Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau

**Canllawiau**

Cyhoeddwyd: 22 Gorffennaf 2025

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg .......... 3

2. Datganiadau Polisi Rhaglenni .......... 4

3. Datganiadau cyfun C4C .......... 18

## Atodiadau

A1. Fframwaith cyfreithiol sy’n berthnasol i SoPPs .......... 21

A2. Fframwaith cyfreithiol sy’n berthnasol i SMCPs .......... 27

# 1. Trosolwg

1.1 Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ('PSBs') le unigryw yng nghymdeithas y DU. Mae eu rôl yn cynnwys darparu amrywiaeth eang o raglenni difyr a llawn gwybodaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r DU ac sydd ar gael am ddim i bawb.

1.2 Mae Datganiadau Polisi Rhaglenni ('SoPPs') yn ffordd bwysig y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ('PSBs trwyddedig') – trwyddedeion Sianel 3, Channel Four Television Corporation ('C4C') a thrwyddedai Sianel 5 – yn nodi sut maen nhw'n bwriadu cyflawni eu rhwymedigaethau rheoleiddio ar gyfer y flwyddyn ganlynol, gan gynnwys cyfrannu at y "cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer teledu'r DU"[1] ('cylch gwaith cyffredinol y PSBs'). Felly, mae SoPPs yn darparu tryloywder ac atebolrwydd ynghylch cyflawni rhwymedigaethau rheoleiddio PSBs trwyddedig. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sut mae'r PSBs trwyddedig yn cyflawni eu cylchoedd gwaith. Rydym hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i alluogi (a chynnal) dynodiad eu chwaraewyr teledu.

1.3 Pwrpas y canllawiau hyn yw helpu'r PSBs trwyddedig[2] i baratoi SoPPs. Rydym hefyd yn rhoi arweiniad ar Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau ('SMCP') C4C, sef sut mae'n adrodd ar gyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau. Gall C4C gyflawni ei ofynion SoPP a SMCP gyda'i gilydd drwy ddatganiadau cyfun.

1.4 Mae gweddill ein canllawiau wedi'u strwythuro fel a ganlyn:

a) yn Adran 2 rydym yn nodi crynodeb o'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer SoPPs cyn darparu ein canllawiau ar sut gall PSBs trwyddedig gyflawni eu gofynion adrodd ar gyfer eu Cynlluniau SoPP ac Adolygiadau SoPP;
b) yn Adran 3 rydym yn nodi crynodeb o'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer C4C cyn nodi ein canllawiau a'n gofynion adrodd ar gyfer ei Gynllun SoPP a SMCP cyfun ac Adolygiad SoPP a SMCP cyfun;
c) rydym hefyd yn nodi manylion y fframwaith cyfreithiol: Atodiad 1 mewn perthynas â SoPPs; ac Atodiad 2 mewn perthynas â SMCP C4C.

[1] Adran 264(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf').

[2] Mae'n rhaid i S4C hefyd baratoi SoPP yn flynyddol a rhoi sylw i'r canllawiau hyn wrth wneud hynny (Paragraff 4, Rhan 2 o Atodlen 12 o'r Ddeddf). Fodd bynnag, yn wahanol i'r PSBs trwyddedig, nid oes gan Ofcom rôl o ran gorfodi cylch gwaith unigol S4C. Mae'r rôl honno'n perthyn i'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n gyfrifol am oruchwylio perfformiad S4C a sut mae'n cyflawni ei gylch gwaith unigol (Adran 339 o'r Ddeddf). Mae gan y BBC ofynion cynllunio ac adrodd blynyddol ar wahân o dan Siarter a Chytundeb Fframwaith y BBC, ac nid oes yn rhaid iddo gynhyrchu SoPP.

# 2. Datganiadau Polisi Rhaglenni

2.1 Yn yr adran hon rydym yn nodi crynodeb o'r fframwaith rheoleiddio. Rydym wedyn yn nodi ein canllawiau ar sut gall y PSBs trwyddedig gyflawni eu dyletswyddau sy'n ymwneud â SoPPs.

## Rôl SoPPs yn y fframwaith rheoleiddio

2.2 Mae gan y SoPPs, y mae'n ofynnol i'r PSBs trwyddedig eu cynhyrchu'n flynyddol, y dibenion canlynol: dangos sut mae PSB trwyddedig yn bwriadu cyflawni ei rwymedigaethau rheoleiddio; adolygu sut mae wedi perfformio o ran eu cyflawni; a galluogi (a chynnal) dynodiad eu chwaraewyr teledu.

### Adrodd ar sut mae PSBs yn cyflawni eu rhwymedigaethau rheoleiddiol

2.3 Mae gan bob un o'r PSBs trwyddedig gylch gwaith unigol y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni.[3] Mae hyn yn cynnwys gwneud '*cyfraniad digonol*' at gyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs, y mae ei ofynion wedi'u nodi mewn statud.[4] Mae rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol yn Atodiad 1.

2.4 Mae gan y PSBs trwyddedig ddyletswyddau rheoleiddio ychwanegol sy'n ymwneud â chwotâu rhaglenni, comisiynu, ac, ar gyfer trwyddedeion Sianel 3, trefniadau rhwydweithio.

2.5 Mae'r SoPPs yn cynnwys dwy ran.[5] Mae rhan gyntaf y SoPP yn edrych tua'r dyfodol ac mae'n mynnu bod y PSB trwyddedig yn nodi ei bolisi rhaglenni ar gyfer y flwyddyn ganlynol bob blwyddyn. Cyfeiriwn at hyn fel y 'Cynllun SoPP'. Mae ail ran y SoPP yn adolygiad o berfformiad y PSB trwyddedig o ran cyflawni'r cynigion a nodwyd yn ei Gynllun SoPP ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Cyfeiriwn at hyn fel yr 'Adolygiad SoPP'.

### Galluogi dynodi chwaraewyr teledu PSBs

2.6 Mae'r PSBs trwyddedig ac S4C wedi datblygu chwaraewyr teledu, y cyfeirir atynt yn ffurfiol yn y Ddeddf fel gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd ('IPS'), sy'n cynnig cynnwys y gellir cael gafael arno ar amrywiaeth eang o lwyfannau teledu cysylltiedig.[6]

2.7 Gall PSBs trwyddedig, S4C, neu rywun sy'n gysylltiedig â nhw, wneud cais i Ofcom i ddynodi eu IPS i sicrhau ei fod ar gael ac yn cael lle amlwg ar lwyfannau teledu cysylltiedig. Rhaid i ni fod yn fodlon bod amodau penodol yn cael eu bodloni er mwyn gwneud dynodiad.[7] Mae'r amodau hyn yn cynnwys a yw'r IPS yn gwneud – neu'n gallu gwneud – '*cyfraniad sylweddol*'

---

[3] Mae'r cylchoedd gwaith unigol ar gyfer gwasanaethau Sianel 3, Channel 4, Channel 5 ac S4C wedi'u nodi yn Atodiad 1. Gweler hefyd Adran 265 ac, yn achos S4C, Paragraff 3(2), Atodlen 12 i'r Ddeddf.
[4] Adran 264(4) - (6) o'r Ddeddf.
[5] Adran 266(1) ac, yn achos S4C, Paragraff 4(1), Atodlen 12 i'r Ddeddf.
[6] Rhan 3A o'r Ddeddf.
[7] Adran 362AA(2) o'r Ddeddf.

at gyflawni cylch gwaith unigol PSB, ac a yw rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn yr IPS at y diben hwn (y cyfeirir ato fel 'cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus' neu 'gynnwys PSR'[8]) yn '*hawdd eu canfod*' ac yn cael eu '*hyrwyddo*' gan yr IPS. Rydym yn trafod yr amodau hyn yn fanylach ym mharagraffau 2.45-50 isod.

2.8 Ar ôl eu dynodi, mae'n rhaid i ddarparwyr IPS sicrhau bod eu IPS ar gael i lwyfannau teledu cysylltiedig dynodedig a elwir yn 'wasanaethau dethol teledu a reoleiddir' neu 'RTSS') ac mae'n rhaid i'r darparwyr RTSS hynny sicrhau bod IPS dynodedig, a'u cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ar gael ac yn amlwg ar eu RTSS.

2.9 Mae gan SoPPs rôl bwysig yn y broses hon. Wrth asesu a ddylid dynodi IPS, rhaid i ni ystyried y cynigion yng Nghynllun SoPP PSB o ran y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud at ei gylch gwaith unigol.[9] Yn ogystal â hynny, mae Adolygiadau SoPP yn berthnasol gan fod yn rhaid i ni hefyd ystyried pa mor effeithiol ac effeithlon yw gwaith y PSB o fonitro ei berfformiad mewn perthynas â chyflawni'i gylch gwaith unigol.[10]

## Canllawiau ar Gynlluniau SoPP

2.10 Yn yr adran hon, rydym yn nodi ein canllawiau ynghylch yr hyn y dylai Cynllun SoPP ei gynnwys, mewn perthynas â chynlluniau PSBs trwyddedig ar gyfer y flwyddyn ganlynol i sicrhau'r dibenion a nodir uchod.

2.11 Mae hyn yn cynnwys canllawiau ynghylch:

a) cylch gwaith unigol y PSB trwyddedig, gan gynnwys ei gyfraniad at gylch gwaith cyffredinol y PSBs;
b) gwybodaeth am IPS y PSB, os yw'r IPS wedi'i ddynodi (neu os yw'r PSB am i'r IPS gael ei ddynodi);
c) ymwybyddiaeth o'r cyfryngau; a
d) rhwymedigaethau rheoleiddio eraill, fel cwotâu cynhyrchu a rhaglenni rhanbarthol, a darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes.

### Cynlluniau cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ganlynol

2.12 Dylai Cynlluniau SoPP gynnwys esboniad clir o sut y bwriedir i gynigion PSBs trwyddedig gyfrannu at gyflawni ei gylch gwaith unigol, gan gynnwys gwneud cyfraniad digonol at gyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs. Gallai hyn gael ei ategu gan y dystiolaeth y mae PSB trwyddedig wedi'i defnyddio i ddatblygu ei bolisi, fel ymchwil i gynulleidfaoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

2.13 Dylai Cynllun SoPP sy'n dangos sut y bydd y PSB trwyddedig yn cyflawni ei gylch gwaith nodi:

a) Rhestr o bob un o'r gwasanaethau perthnasol y mae'r PSB trwyddedig yn bwriadu eu defnyddio i gyfrannu at ei gylch gwaith unigol, gan gynnwys cyfrannu at gyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs ('gwasanaethau perthnasol'). Esbonnir y meini prawf ar gyfer

[8] Adran 362AA(12) o'r Ddeddf.
[9] Adran 362AA(7)(a) o'r Ddeddf.
[10] Adran 362AA(7)(c) o'r Ddeddf.

yr hyn a all gael ei gyfrif yn wasanaeth perthnasol yn Atodiad 1 (paragraffau A1.9-A1.13). Dylai PSBs trwyddedig gynnwys manylion ynghylch a yw'r gwasanaethau perthnasol hyn yn cael eu darparu gan y PSB neu gan drydydd parti.[11] Pan fydd y gwasanaeth perthnasol yn cael ei ddarparu gan drydydd parti, dylai'r Cynllun SoPP gynnwys amlinelliad o drefniadau'r PSB gyda'r trydydd parti dan sylw.

b) Nodau cyffredinol y PSB trwyddedig ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar draws ei holl wasanaethau perthnasol o ran sut y bydd yn cyflawni ei gylch gwaith unigol, gan gynnwys gwneud cyfraniad digonol at gylch gwaith cyffredinol y PSBs. Nid yw'r term 'cyfraniad digonol' wedi'i ddiffinio mewn deddfwriaeth; yn ymarferol, efallai na fydd yr hyn a allai fod yn ddigonol ar gyfer un PSB yn ddigonol ar gyfer un arall. Mae ffactorau a allai fod yn berthnasol wrth ystyried cyfraniad PSB at gylch gwaith cyffredinol y PSBs yn cynnwys gofynion ei gylch gwaith unigol yn ogystal â maint a chynulleidfa darged y PSB. Er enghraifft, bydd angen i gyfraniad Channel 4 adlewyrchu'r ffaith bod ei gylch gwaith unigol yn cynnwys cynhyrchu ystod eang o gynnwys sy'n dangos arloesedd, arbrofi a chreadigrwydd ar ffurf a chynnwys rhaglenni, sy'n ofyniad nad yw'n berthnasol i'r PSBs trwyddedig eraill.

2.14 Mae'r PSBs yn gyfrifol ar y cyd am gyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs, sy'n cynnwys diwallu anghenion a bodloni buddiannau cymaint o gynulleidfaoedd gwahanol â phosibl o ran sut maen nhw'n sicrhau bod cynnwys ar gael a natur y cynnwys maen nhw'n ei ddarparu, a'r pynciau sy'n cael sylw. Mater i'r PSBs trwyddedig yw penderfynu sut maen nhw'n gwneud hyn mewn perthynas â'u cyfraniadau eu hunain. Mae'n bosibl y bydd y PSBs trwyddedig yn dymuno cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn eu Cynlluniau SoPP at y dibenion hyn:

a) Esboniad o unrhyw dargedau cynulleidfa y mae'r PSB trwyddedig yn ceisio eu cyrraedd yn gyffredinol, megis grwpiau demograffig penodol, a sut y bydd ei ddewis o wasanaethau perthnasol yn ei helpu i gyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd;
b) Manylion unrhyw flaenoriaethau a themâu rhaglenni;
c) Manylion unrhyw nodau neu amcanion allweddol penodol eraill ar gyfer y PSB trwyddedig yn gyffredinol, a'i gynlluniau i fynd i'r afael â nhw;
d) Manylion ynghylch sut y bydd perfformiad yn cael ei fesur a'i werthuso (e.e. metrigau allweddol neu ddangosyddion perfformiad).

## Sut mae gwasanaethau perthnasol yn cyfrannu at gylch gwaith cyffredinol y PSBs

2.15 Gan mai cyfrifoldeb ar y cyd yw bodloni cylch gwaith cyffredinol y PSBs, nid yw'n ofynnol i bob PSB, ac felly pob gwasanaeth perthnasol, gyfrannu at bob rhan o'r cylch gwaith hwnnw.

2.16 Yn ei Gynllun SoPP, dylai'r PSB trwyddedig nodi polisi rhaglenni ar gyfer y flwyddyn ganlynol sy'n cynnwys manylion ynghylch sut y bydd rhaglenni a fydd ar gael ar bob gwasanaeth perthnasol[12] yn cyfrannu at gylch gwaith unigol y PSB, gan gynnwys cyfrannu at gylch gwaith cyffredinol y PSBs ('y polisi rhaglenni'). Wrth wneud hynny, gallai PSBs trwyddedig

[11] Adran 264(13) o'r Ddeddf.

[12] Esbonnir y meini prawf ar gyfer yr hyn a all gael ei gyfrif yn wasanaeth perthnasol yn Atodiad 1 (paragraffau A1.9-A1.13).

nodi disgrifiad o gymeriad pob gwasanaeth perthnasol. Gallai'r disgrifiad adlewyrchu'r cyfraniad y mae'r PSB trwyddedig yn bwriadu i'r gwasanaeth perthnasol ei wneud tuag at un neu fwy o ofynion cylch gwaith cyffredinol y PSBs, ei gynulleidfaoedd targed, a'i brif themâu.

2.17 Gallai'r PSB trwyddedig ddefnyddio astudiaethau achos o raglenni unigol drwy ei Gynllun SoPP fel y bo'n briodol. Gan y bydd perfformiad polisi rhaglen pob Cynllun SoPP yn cael ei asesu gan y PSB trwyddedig yn ei Adolygiad SoPP, gall Cynllun SoPP gynnwys targedau meintiol ar gyfer sut y bydd pob gwasanaeth perthnasol yn cyfrannu at gylch gwaith cyffredinol y PSBs.

2.18 Yn y paragraffau canlynol, rydym yn rhoi arweiniad ar wybodaeth y dylai PSB trwyddedig ei darparu yn ei Gynllun SoPP mewn perthynas ag agweddau amrywiol ar gylch gwaith cyffredinol y PSBs. Wrth nodi'r polisi rhaglenni ar gyfer pob gwasanaeth perthnasol[13] yn ei Gynllun SoPP, efallai y bydd PSB trwyddedig yn dymuno darparu gwybodaeth drwy gyfeirio at y penawdau hyn ac unrhyw agwedd arall ar gylch gwaith cyffredinol y PSBs sy'n berthnasol yn ei farn ef. Rydym yn trafod y penawdau yn eu tro.

## Diwallu anghenion cynifer o gynulleidfaoedd â phosibl

2.19 Er mwyn cyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs, mae gan y PSBs gydgyfrifoldeb dros sicrhau bod ystod eang o raglenni ar gael sy'n "*diwallu anghenion ac yn bodloni buddiannau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd ag sy'n ymarferol*".[14]

2.20 Er mwyn dangos cyfraniad at y gofyniad hwn, gallai Cynllun SoPP PSB trwyddedig gynnwys disgrifiad o'r cynulleidfaoedd targed ar gyfer pob gwasanaeth perthnasol, a sut bydd natur gyffredinol ei raglenni a'r pynciau y maent yn rhoi sylw iddynt yn darparu ar gyfer y cynulleidfaoedd hynny yn gyffredinol. Gall astudiaethau achos fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth, gan egluro sut y bwriedir i raglenni unigol wasanaethu cynulleidfaoedd penodol.

## Argaeledd

2.21 Er mwyn cyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs, mae PSBs yn gyfrifol ar y cyd am ddarparu ystod eang o raglenni sydd *"gan ystyried pryd a sut y derbynnir neu y cyrchir eu gwasanaethau perthnasol, yn debygol o ddiwallu anghenion a bodloni buddiannau cynifer o gynulleidfaoedd gwahanol ag y bo'n ymarferol."*[15]

2.22 Efallai y bydd PSB trwyddedig yn dymuno esbonio sut y bydd yn cyfrannu at y gofyniad hwn drwy gynnwys yn ei Gynllun SoPP fanylion ynghylch sut mae pob gwasanaeth perthnasol yn cael ei dderbyn neu ei gyrchu (gall hyn gynnwys cyfeiriad at yr amrywiaeth o lwyfannau neu ddyfeisiau y mae ar gael arnynt), a sut y bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau bod rhaglenni'r PSB trwyddedig yn gallu cael eu gwylio gan gymaint o'i gynulleidfa darged â phosibl.

---

[13] Pan fydd yr un rhaglenni ar gael ar nifer o wasanaethau perthnasol, fel yr holl gynnwys ar sianel deledu sydd hefyd ar gael ar yr IPS, neu sianel deledu '+1', yna nid oes angen i'r Cynllun SoPP ddyblygu polisïau rhaglenni a rennir. Yn yr achosion hyn, dylai'r PSB trwyddedig nodi'n glir pryd mae polisïau rhaglenni'n cael eu rhannu gan nifer o wasanaethau perthnasol.

[14] Adran 264(4) o'r Ddeddf.

[15] Adran 264(4)(a) o'r Ddeddf.

## Hygyrchedd

2.23 Gall PSB ddefnyddio gwasanaeth perthnasol i gyflawni ei gylch gwaith dim ond os "*gellir ei dderbyn neu ei ddefnyddio ar ffurf ddealladwy ac yn rhad ac am ddim*"[16] *"gan gymaint o gynulleidfa darged y darlledwr ag sy'n rhesymol ymarferol"*.[17]

2.24 Yn ogystal â gwybodaeth am sut mae ei wasanaethau perthnasol yn cael eu darparu i gynulleidfaoedd ledled y DU, efallai y bydd PSB trwyddedig yn dymuno nodi yn ei Gynllun SoPP fanylion ynghylch sut gall cynulleidfaoedd sydd ag anghenion mynediad (gan gynnwys cynulleidfaoedd anabl) gael mynediad at wasanaethau perthnasol, sut bydd y gwasanaeth perthnasol yn cael ei ddefnyddio i fodloni gofynion hygyrchedd perthnasol, a sut bydd y gwasanaeth perthnasol yn ystyried canllawiau hygyrchedd perthnasol.[18]

2.25 Gallai PSB trwyddedig gynnwys trafodaeth ar ei ddull o ymdrin â hygyrchedd ar bob gwasanaeth perthnasol, gan gynnwys unrhyw dargedau ar gyfer darparu rhaglenni sydd ag isdeitlau, disgrifiadau sain a/neu iaith arwyddion (mewn Iaith Arwyddion Prydain a/neu Iaith Arwyddion Iwerddon). Ar ben hynny, gall Cynllun SoPP nodi manylion y mesurau sydd ar waith i ddarparu ffyrdd hygyrch o wylio darllediadau brys heb eu trefnu neu rybuddion newyddion.

2.26 O ran gwasanaethau ar-alw, gallai Cynlluniau SoPP gynnwys esboniadau ynghylch sut bydd y PSB trwyddedig yn sicrhau bod y rhyngwyneb defnyddiwr yn hawdd ei ddefnyddio ar gyfer cynulleidfaoedd sydd ag anghenion mynediad, a manylion ynghylch sut mae'r PSB yn bwriadu cynnal a/neu wella ansawdd nodweddion hygyrchedd, gyda'r bwriad o wneud ei wasanaethau'n fwy hygyrch yn raddol.[19] Os yw'r PSB trwyddedig hefyd yn defnyddio gwasanaethau ar-lein eraill fel cyfrifon ar lwyfannau rhannu fideos i gyflawni ei gylch gwaith, gallai ddarparu gwybodaeth debyg am hygyrchedd mewn perthynas â gwasanaethau o'r fath yn ei Gynllun SoPP.

## Newyddion a materion cyfoes cynhwysfawr ac awdurdodol

2.27 Er mwyn cyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs, mae'r PSBs yn gyfrifol ar y cyd am ddarparu "*i'r graddau sy'n briodol ar gyfer hwyluso dealltwriaeth ddinesig a dadl deg sy'n seiliedig ar wybodaeth am newyddion a materion cyfoes, sylw cynhwysfawr ac awdurdodol i newyddion a materion cyfoes (i) yn y Deyrnas Unedig, ac mewn rhannau gwahanol ohoni, ac (ii) ledled y byd.*"[20]

2.28 Pan fydd y PSB trwyddedig yn bwriadu defnyddio gwasanaeth perthnasol i gyfrannu at y gofyniad hwn, dylai Cynllun SoPP gynnwys manylion cynlluniau'r PSB trwyddedig ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar y gwasanaeth. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am gynnwys domestig a rhyngwladol, a nodweddion sy'n cyfrannu at ansawdd y ddarpariaeth sydd i'w darparu.

---

[16] Adran 264(8) o'r Ddeddf.
[17] Adran 264(7) o'r Ddeddf.
[18] Megis Canllawiau ar Ddarparu Gwasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu ac Ar-alw
[19] Adran 368C(2) o'r Ddeddf.
[20] Adran 264(5)(a) o'r Ddeddf.

2.29 Rydym yn annog y PSB trwyddedig i amlinellu ei drefniadau ar gyfer casglu newyddion ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU, a ledled y byd, yn ogystal ag amrywiaeth a chydbwysedd y ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes cenedlaethol a rhyngwladol.

2.30 Ar ben hynny, dylai trwyddedeion Sianel 3 amlinellu yn eu Cynlluniau SoPP y trefniadau sydd ar waith ar gyfer darparwr newyddion penodedig Sianel 3, yn unol ag Adran 280 o'r Ddeddf.[21]

## Gwybodaeth, addysg ac adloniant

2.31 Gofyniad arall yng nghylch gwaith cyffredinol y PSBs yw bod y rhaglenni a ddarperir gan PSBs gyda'i gilydd "*yn cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer lledaenu gwybodaeth ac ar gyfer darparu addysg ac adloniant*".[22]

2.32 Dylai Cynllun SoPP gynnwys gwybodaeth am sut mae'r PSB trwyddedig yn bwriadu defnyddio gwasanaethau perthnasol i gyfrannu at y gofyniad hwn yng nghylch gwaith cyffredinol y PSBs.[23] At y dibenion hyn, gallai'r PSB trwyddedig gynnwys manylion ei gynlluniau ar gyfer pob gwasanaeth perthnasol ar gyfer darparu rhaglenni ffeithiol, addysgol, adloniant, comedi a drama, a ffilmiau (fel sy'n berthnasol). Gall hyn gynnwys nifer arfaethedig yr oriau, a chyfran, o bob math o raglenni a fydd ar gael ar y gwasanaeth perthnasol.

## Rhaglenni sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a diwylliannau ledled y DU

2.33 Wrth ddarparu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer gwybodaeth, addysg ac adloniant, mae'r PSBs yn gyfrifol ar y cyd am gynnwys "*nifer ddigonol o [raglenni] sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a diddordebau a thraddodiadau diwylliannol yn y Deyrnas Unedig, ac yn lleol mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig.*" [24]

2.34 Pan fydd gwasanaeth perthnasol yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at ofyniad cylch gwaith cyffredinol y PSBs bod rhaglenni'n adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a diwylliannau ledled y DU, dylai Cynllun SoPP PSB trwyddedig gynnwys gwybodaeth am ei gynlluniau yn y maes hwn. Gall hyn gynnwys manylion am gynrychiolaeth:

a) amrywiaeth y DU o ran ethnigrwydd, cenedligrwydd, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd a/neu gefndiroedd economaidd-gymdeithasol;
b) bywydau a phryderon pobl ledled gwledydd a rhanbarthau'r DU;
c) diddordebau diwylliannol ledled y DU, gan gynnwys, er enghraifft, chwaraeon, cerddoriaeth, y celfyddydau, a rhaglenni crefydd a moeseg a phortreadu bywyd diwylliannol mewn genres eraill.

---

[21] Ar ddyddiad cyhoeddi'r canllawiau hyn, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi gorchymyn o dan Adran 283 o'r Ddeddf sy'n mynnu bod rhaglenni newyddion Channel 5 yn cael eu darparu gan ddarparwr newyddion penodedig. Fodd bynnag, os gwneir gorchymyn o'r fath, dylai Cynllun SoPP Channel 5 amlinellu ei drefniadau ar gyfer darparwr newyddion penodedig.
[22] Adran 264(5)(b) o'r Ddeddf.
[23] Adran 264(5)(b) o'r Ddeddf.
[24] Adran 264(5)(b)(i) o'r Ddeddf.

## Ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol cydnabyddedig

2.35 Mae'r gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer gwybodaeth, addysg ac adloniant a ddarperir gan y PSB yn gyfrifol ar y cyd am gynnwys "*nifer ddigonol o [raglenni] sydd mewn, neu'n bennaf mewn, iaith ranbarthol neu leiafrifol gydnabyddedig*."[25]

2.36 Pan fydd PSB trwyddedig yn bwriadu defnyddio gwasanaeth perthnasol i ddarparu rhaglenni yn y Gymraeg, Gaeleg, Gwyddeleg, Albaneg, Albaneg Wlster neu Gernyweg gyda'r bwriad o gyfrannu at yr agwedd hon ar gylch gwaith cyffredinol y PSBs, dylai gynnwys yn ei SoPP fanylion yr iaith/ieithoedd y darperir cynnwys ynddi/ynddynt, ar ba rai o'i wasanaethau perthnasol, a nifer a natur y rhaglenni hynny.

## Rhaglenni addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc

2.37 Mae cylch gwaith cyffredinol y PSBs yn cynnwys gofyniad bod y PSBs ar y cyd yn sicrhau bod rhaglenni ar gael sy'n "*cynnwys ystod a swm priodol o gynnwys clyweledol, wedi'i gynnwys mewn cynyrchiadau gwreiddiol, sydd yn: (i) adlewyrchu bywydau a phryderon plant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig, ac (ii) sydd o natur addysgol, ac (iii) yn eu helpu i ddeall y byd o'u cwmpas.*"[26]

2.38 Er mwyn dangos cyfraniad at yr agwedd hon o gylch gwaith cyffredinol y PSBs, dylai Cynllun SoPP PSB trwyddedig gynnwys manylion am y ffordd y bydd gwasanaeth perthnasol yn darparu cynyrchiadau addysgol gwreiddiol sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am raglenni o fewn yr is-genres addysg cyn-ysgol, ysgolion, addysg ffurfiol, a rhaglenni ffeithiol i blant.[27]

## Amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol, gwreiddiol ac y 'Gwnaed y Tu Allan i Lundain'

2.39 Mae cylch gwaith cyffredinol y PSBs yn cynnwys gofyniad bod y PSBs gyda'i gilydd yn darparu:

*a)* *"ystod briodol o gynyrchiadau annibynnol gyda hyd cyfun priodol,*
*b)* *ystod briodol o gynyrchiadau gwreiddiol gyda hyd cyfun priodol, ac*
c) *i'r graddau y mae'r cynnwys clyweledol yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig, amrywiaeth briodol o raglenni sy'n cael eu cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25 gyda hyd cyfun priodol."*[28]

2.40 Er mwyn dangos sut mae'n cyfrannu at ofyniad cylch gwaith cyffredinol y PSBs mewn perthynas ag '*amrywiaeth briodol*' o gynyrchiadau o'r fath, gallai PSB trwyddedig amlinellu yn ei Gynllun SoPP, ar gyfer pob un o'i wasanaethau perthnasol, y genres a gwmpesir gan gynyrchiadau annibynnol, cynyrchiadau gwreiddiol a rhaglenni y '*Gwnaed y Tu Allan i Lundain*'. Gallai PSB trwyddedig hefyd gynnwys manylion yn ei Gynllun SoPP am yr ystod o

[25] Adran 264(5)(b)(ii) o'r Ddeddf.
[26] Adran 264(5)(c) o'r Ddeddf.
[27] Wrth ddatblygu eu polisïau rhaglenni, dylai PSBs trwyddedig ystyried unrhyw feini prawf a gyhoeddir gan Ofcom sy'n ymwneud â darparu rhaglenni plant o dan Adran 289A o'r Ddeddf.
[28] Adran 264 (5)(d) o'r Ddeddf. Mae rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25 yn cael eu galw'n gynyrchiadau y '*Gwnaed y Tu Allan i Lundain*'.

gynhyrchwyr annibynnol a gomisiynwyd i wneud rhaglenni a'r ystod o leoedd lle mae rhaglenni wedi'u gwneud.

2.41 Mae'n rhaid i'r PSBs trwyddedig gynnwys gwybodaeth yn eu SoPPs am sut byddant yn cyflawni eu cwotâu, gan gynnwys cwotâu mewn perthynas â chynyrchiadau annibynnol, cynyrchiadau gwreiddiol a chynyrchiadau y Gwnaed y Tu Allan i Lundain, y mae'n rhaid eu dangos ar eu prif sianel deledu a/neu IPS dynodedig.[29] Os yw PSB trwyddedig yn bwriadu darparu'r math hwn o raglenni ar wasanaeth perthnasol arall neu ragori ar ei gwotâu ar ei brif sianel deledu a/neu IPS dynodedig, gall gynnwys gwybodaeth am hyn, gan gynnwys hyd arfaethedig rhaglenni o'r fath, yn ei Gynllun SoPP.[30]

2.42 Dylai C4C nodi gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â'i ddull o gomisiynu rhaglenni y tu allan i Loegr, yn unol â pharagraff 3.11 y canllawiau hyn.

### Amrywiaeth o genres

2.43 Mae cylch gwaith cyffredinol y PSBs yn cynnwys gofyniad bod y PSBs gyda'i gilydd yn sicrhau bod amrywiaeth briodol o genres ar gael. Mae gan bob PSB hefyd ofyniad cylch gwaith unigol i ddarparu "*amrywiaeth o raglenni amrywiol o ansawdd uchel*",[31] (neu "*amrywiaeth eang*" yn achos Channel 4).[32]

2.44 Dylai Cynlluniau SoPP PSBs amlinellu'r amrywiaeth o genres a fydd yn cael eu darparu ar draws yr holl wasanaethau perthnasol.

## Dynodi IPS

2.45 Pan fydd PSB trwyddedig yn defnyddio IPS i gyfrannu at gyflawni ei gylch gwaith unigol, dylai ei Gynllun SoPP gynnwys gwybodaeth amdano, yn unol â'r canllawiau uchod, fel un o wasanaethau perthnasol y PSB.

2.46 Pan fydd PSB trwyddedig, S4C neu unigolyn sy'n gysylltiedig â hwy yn dymuno cael dynodiad ar gyfer yr IPS, efallai y bydd y PSB perthnasol hefyd yn ystyried cynnwys gwybodaeth yn ei Gynllun SoPP sy'n egluro pam mae'r IPS yn gymwys i gael ei ddynodi.[33] Yn benodol, gall hyn gynnwys esboniad o'r canlynol: (i) pam mae'r IPS yn gwneud, neu'n gallu gwneud, cyfraniad sylweddol at gylch gwaith unigol y PSB perthnasol; ac (ii) a yw cynnwys y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ('PSR') sydd wedi'i gynnwys yn yr IPS yn hawdd ei ganfod a'i hyrwyddo gan y gwasanaeth.

---

[29] Gweler paragraffau 2.58 - 59 isod.

[30] Mae'r gofyniad cylch gwaith hwn ar wahân i'r cwotâu sy'n ymwneud â chynyrchiadau annibynnol, gwreiddiol a chynyrchiadau y '*Gwnaed y Tu Allan i Lundain*' sy'n ofynnol o dan adrannau 277, 278 a 286 o'r Ddeddf. Er mai dim ond rhaglenni ar brif sianel neu IPS dynodedig y PSB all gyflawni'r gofynion cwota, gall yr holl wasanaethau perthnasol gyfrannu at y gofyniad cylch gwaith sy'n ymwneud ag amrywiaeth o gynyrchiadau.

[31] Adran 265(2) o'r Ddeddf.

[32] Adran 265(3) o'r Ddeddf.

[33] Os bydd PSB yn penderfynu darparu'r wybodaeth hon yn ei Gynllun SoPP at ddibenion y broses dynodi IPS, nid yw'r wybodaeth hon yn dod o dan y rhwymedigaeth yn adran 266(3) o'r Ddeddf i SoPP gynnwys adolygiad perfformiad o'r cynigion sydd yn SoPP blaenorol y PSB.

2.47 Mae hyn yn adlewyrchu'r ddau amod dynodi y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall Ofcom ddynodi IPS.[34] Rydym yn cyfeirio atynt fel 'Amod 1' ac 'Amod 2'. Rydym yn nodi'r wybodaeth y gallai'r PSBs ddymuno ei darparu yn eu Cynlluniau SoPP mewn perthynas â'r amodau hyn isod.[35]

## Amod 1: A yw'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith unigol y PSB trwyddedig neu S4C?

2.48 Fel yr eglurwyd ym mharagraffau A1.18-21 o'n Datganiad o Ddulliau ar gyfer dynodi IPS, wrth benderfynu a yw Amod 1 wedi'i fodloni, bydd Ofcom yn ystyried arwyddocâd yng nghyd-destun cylch gwaith unigol pob PSB a bydd yn rhoi sylw penodol i'r graddau y bydd y cynnwys ar yr holl wasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi'u nodi yn ei SoPP (ac eithrio'r IPS) yn cael ei gynnwys yn yr IPS. Felly, efallai y bydd y PSB yn dymuno cadarnhau yn ei Gynllun SoPP a fydd yr IPS yn cynnwys yr holl gynnwys o'r fath ar yr IPS ac, os na fydd, rhoi esboniad am hyn.

2.49 Caiff Ofcom ddynodi ail IPS neu IPS ychwanegol a ddarperir gan PSB (neu unigolyn sy'n gysylltiedig â'r PSB hwnnw) os yw Ofcom, yn ogystal â bodloni'r meini prawf dynodi yn y Ddeddf[36], o'r farn bod y cyfraniad arfaethedig y byddai'r ail IPS eu IPS ychwanegol yn ei wneud tuag at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB hwnnw yn gallu bodloni anghenion a diddordebau cynulleidfa benodol.[37] Fel rhan o hyn, byddwn yn ystyried a yw'r cynnwys ar wasanaethau perthnasol y PSB sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y gynulleidfa benodol ar gael ar yr IPS dan sylw. Os yw'r PSB wedi cael neu'n bwriadu cael ail IPS neu IPS dynodedig ychwanegol, gallai nodi hynny yn ei Gynllun SoPP:

*a)* y gynulleidfa benodol y bwriedir iddo ei gwasanaethu;
*b)* cadarnhau a yw'r holl gynnwys y mae'r PSB yn ei ddarparu ar gyfer y gynulleidfa hon ar draws ei wasanaethau perthnasol ar gael ar yr IPS; ac, os nad ydyw,
*c)* cynnwys esboniad am hyn.

## Amod 2: A yw cynnwys y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS?

2.50 Fel yr eglurwyd ym mharagraffau A1.22-26 o'n Datganiad o Ddulliau ar gyfer dynodiad IPS, wrth benderfynu a yw Amod 2 wedi'i fodloni, bydd Ofcom yn ystyried gwybodaeth a ddarperir gan ddarparwyr IPS yn egluro: (i) sut y bydd cynnwys PSR ar gael yn rhwydd ar yr IPS; ac (ii) sut y bydd cynnwys PSR yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS. Felly, gall y PSBs ddarparu'r wybodaeth ganlynol, wedi'i chefnogi gan ddata perthnasol, at ddibenion y penderfyniad hwn yn eu Cynlluniau SoPP:

---

[34] Nodir y ddau amod dynodi yn Adrannau 362AA(3) a (4) o'r Ddeddf. Yn ogystal â'r amodau hyn, rhaid i Ofcom hefyd ystyried ei bod yn briodol dynodi'r IPS (Adran 362AA(2)(b) o'r Ddeddf).
[35] Os na fydd PSBs yn darparu'r wybodaeth hon ynghylch Amod 1 ac Amod 2 yn eu Cynlluniau SoPP, bydd angen i ddarparwr IPS sy'n gwneud cais am ddynodiad ei IPS ddarparu'r wybodaeth hon i Ofcom drwy ddull arall. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein Datganiad: Dynodi Gwasanaethau Rhaglenni Rhyngrwyd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus.
[36] Adran 362AA(2) o'r Ddeddf.
[37] Adran 362AA(7)(b)(i) o'r Ddeddf.

a) Esboniad o sut mae/bydd cynnwys PSR yn cael ei leoli mewn mannau traffig uchel[38] ar y dudalen hafan yn ogystal â nodweddion a mannau traffig uchel eraill yr IPS fel bod sylw mae cynulleidfaoedd yn ei roi i'r cynnwys hwn yn debygol o gynyddu o'i gymharu â chynnwys nad yw'n PSR.  Gallai hyn gynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos ar gyfer sut mae/bydd hyn yn cael ei gyflawni, er enghraifft:

    i) Hyrwyddo ar 'faner arwr' yr hafan;
    ii) Cynnwys mewn rheiliau thema ar yr hafan;
    iii) Argymhelliad yn y swyddogaeth chwilio;
    iv) Cynnwys mewn tabiau categorïau wedi'u curadu;
    v) Rhaglenni awto-chwarae;
    vi) Argymhellion ar ddechrau neu ddiwedd rhaglenni;
    vii) Cynnwys mewn ymgyrchoedd sy'n ymwneud â themâu penodol.

b) Esboniad o sut mae dull y darparwr IPS o guradu[39] (wedi'i arwain yn olygyddol a/neu'n algorithmig), a'r nodau a'r blaenoriaethau sy'n sail i'r dull hwnnw, yn helpu i hyrwyddo cynnwys PSR a'i wneud yn hawdd ei ganfod.
c) Tystiolaeth o sut mae amrywiaeth eang o gynnwys PSR sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu yn cael ei hyrwyddo a'i wneud yn hawdd i'w ddarganfod mewn mannau traffig uchel yr hafan yn ogystal â mannau traffig uchel eraill a nodweddion yr IPS. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos ar gyfer sut mae/bydd hyn yn cael ei gyflawni (gweler yr enghreifftiau isod).
d) Tystiolaeth o sut mae/bydd newyddion a materion cyfoes yn cael eu hyrwyddo a'u gwneud yn hawdd i'w canfod mewn mannau traffig uchel ar y dudalen hafan, yn ogystal a nodweddion a mannau traffig uchel eraill yr IPS. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos ar gyfer sut mae/bydd hyn yn cael ei gyflawni (gweler yr enghreifftiau isod).
e) Mewn achosion lle mae darparwr IPS yn bwriadu darparu cynnwys nad yw'n PSR yn yr IPS, esboniad o sut bydd darparwr IPS yn sicrhau:

    i) na fydd effaith andwyol ar hyrwyddo a'r gallu i ganfod cynnwys PSR;
    ii) bydd mannau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau eraill â lefelau traffig uchel yr IPS yn darparu cynnwys PSR yn bennaf.

## Newidiadau sylweddol

2.51 Rhaid i'r PSBs trwyddedig ymgynghori â ni wrth baratoi eu SoPPs os ydynt yn cynnig gwneud '*newid sylweddol*'. Newid sylweddol yw newid a fyddai'n achosi i wasanaeth perthnasol fod yn "*sylweddol wahanol o ran cymeriad o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol*".[40] Gall newid graddol dros gyfnod o hyd at dair blynedd fod yn newid sylweddol.[41]

---

[38] Mae '*man traffig uchel*' yn cyfeirio at fan yn yr IPS sy'n cael ei weld a/neu ei ddefnyddio gan nifer sylweddol o bobl pan fyddant yn defnyddio'r IPS.
[39] Mae 'curadu' yn golygu dewis, trefnu a chyflwyno cynnwys ar yr IPS.
[40] Adran 267(4) o'r Ddeddf.
[41] Adran 267(5) o'r Ddeddf.

2.52 Os yw PSB trwyddedig yn bwriadu gwneud newid sylweddol i un neu fwy o'i wasanaethau perthnasol, dylai esbonio hyn yn ei Gynllun SoPP ynghyd â'r effaith y gallai'r newid ei chael ar gyflawni ei gylch gwaith unigol a'i gyfraniad at gyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs. Dylai'r PSB trwyddedig ymgynghori ag Ofcom ynghylch ei gynigion ar gyfer newid sylweddol ac ystyried unrhyw safbwyntiau gennym ni yn y Cynllun SoPP y mae'n ei gynhyrchu, er enghraifft drwy ddiwygio neu roi'r gorau i'w gynlluniau ar gyfer newid sylweddol neu drwy adlewyrchu ein safbwyntiau ni yn ei esboniad o'r newid yn y Cynllun SoPP.

2.53 Dylai PSB trwyddedig asesu newid sylweddol drwy gyfeirio at ei ddisgrifiad o gymeriad y gwasanaeth perthnasol. Dylai hefyd ystyried unrhyw newidiadau a wnaed yn ystod y tair blynedd flaenorol a fyddai, o'u hystyried gyda'r newid arfaethedig diweddaraf, yn arwain at newid sylweddol.

2.54 O ran pa gynigion allai fod yn newid sylweddol, rydym o'r farn y gallai'r rhain gynnwys newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaeth perthnasol yn cyfrannu at gylch gwaith unigol y PSB trwyddedig, fel y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

a) newid sylweddol i gynulleidfa darged gwasanaeth perthnasol;
b) gwasanaeth perthnasol nad yw'n cyfrannu mwyach at elfen(nau) penodol o gylch gwaith unigol y PSB trwyddedig a/neu gylch gwaith cyffredinol y PSBs, yn dibynnu ar natur yr elfen(nau) yr effeithir arnynt a hyd a lled y newidiadau a gynigir;
c) gostyngiad sylweddol yn yr amrywiaeth o genres sy'n cael eu darparu ar wasanaeth perthnasol.

2.55 Gallai cynnig i gyflwyno gwasanaeth perthnasol newydd, neu gynnig i roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaeth perthnasol presennol, fod yn newid sylweddol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd angen i PSB trwyddedig ystyried a allai'r cynnig/cynigion arwain at newid sylweddol i wasanaethau perthnasol eraill.

2.56 Rydym yn annog PSBs trwyddedig i ymgynghori â ni cyn gynted â phosibl ynghylch newid sylweddol posibl. Pan fyddwn yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, mae'n bosibl y byddwn yn ymgynghori â phartïon perthnasol eraill, yn dibynnu ar natur y newid arfaethedig. Pan fyddwn yn ystyried newid sylweddol arfaethedig, mae ffactorau rydym yn debygol o'u hystyried yn cynnwys:

a) yr effaith ar gynulleidfaoedd;
b) cyd-destun y farchnad, gan gynnwys unrhyw wybodaeth gyllidebol berthnasol a ddarperir i ni gan y PSB trwyddedig;
c) cynigion y PSB trwyddedig mewn perthynas â sut y cynigir y bydd ei wasanaethau perthnasol eraill yn cyfrannu at y cylch gwaith unigol a chylch gwaith cyffredinol y PSBs;
d) sut mae gwasanaethau perthnasol PSBs eraill yn cyfrannu at gylch gwaith cyffredinol y PSBs.

## Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

2.57 Mae Adran 11 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Ofcom i annog eraill i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Yn unol â'n dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, rydym yn annog PSBs trwyddedig i ddefnyddio eu Cynllun SoPP i amlinellu sut mae eu rhaglenni a'u gweithgareddau ehangach yn cyfrannu at hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymysg eu cynulleidfaoedd, yn enwedig mewn perthynas â lliniaru effaith camwybodaeth a thwyllwybodaeth. Mae enghreifftiau o sut gall PSBs trwyddedig ddewis

cyfrannu at ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

a) rhaglenni penodol (gan gynnwys straeon neu drafodaethau ar y sgrin o fewn rhaglenni);
b) gweithgaredd allgymorth;
c) ymgyrchoedd;
d) phartneriaethau;
e) cynnwys cyfryngau cymdeithasol;
f) adnoddau ar-lein.

2.58 Efallai y bydd PSBs trwyddedig hefyd yn dymuno cynnwys yr wybodaeth ganlynol am eu gweithgarwch ymwybyddiaeth o’r cyfryngau yn eu Cynllun SoPP:

a) manylion cyllideb y PSB trwyddedig ar gyfer mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau;
b) hyd strategaethau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau;
c) nifer y bobl y mae gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn eu cyrraedd;
d) y cynulleidfaoedd yr oedd y gweithgareddau hyn yn canolbwyntio arnynt a lle cawsant eu darparu;
e) y rhesymeg y tu ôl i’r gweithgareddau ac a oeddent yn cyflawni eu hamcanion;
f) a oes gan y PSB trwyddedig gynlluniau i ymestyn a/neu ailadrodd gweithgareddau;
g) unrhyw waith gwerthuso perthnasol y mae’r PSB trwyddedig wedi’i wneud.

2.59 Efallai y bydd PSBs trwyddedig yn dymuno ystyried canllawiau perthnasol Ofcom[42] wrth ddatblygu eu strategaeth ymwybyddiaeth o’r cyfryngau eu hunain.

# Gofynion adrodd eraill

## Cwotâu

2.60 O dan eu trwyddedau, mae'n ofynnol i'r PSBs trwyddedig gyflawni gofynion cwota amrywiol sy'n ymwneud â chynyrchiadau annibynnol a gwreiddiol, cynyrchiadau rhanbarthol, a rhaglenni newyddion a materion cyfoes.[43] Mae gan bob trwyddedai Sianel 3 gwotâu rhaglennu rhanbarthol hefyd mewn perthynas â rhaglenni sydd o ddiddordeb arbennig i gynulleidfaoedd yn eu hardaloedd trwydded priodol, ac sy’n cael eu gwneud yn yr ardal honno. Dim ond at ddibenion cyflawni cwota y gall PSBs trwyddedig ddefnyddio eu prif sianel deledu a’r IPS dynodedig.[44]

2.61 I'r graddau nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn barod, dylai'r Cynllun SoPP amlinellu sut mae'r PSB trwyddedig yn bwriadu bodloni'r gofynion cwota hyn (fel sy’n berthnasol).

[42] Er enghraifft, Strategaeth Ymwybyddiaeth o’r Cyfryngau Ofcom.
[43] Adrannau 277-279, 286 - 288 o’r Ddeddf.
[44] Gellir cyflawni cwotâu ar gyfer cynyrchiadau annibynnol, gwreiddiol a rhanbarthol gyda rhaglenni ar y brif sianel deledu neu ar IPS dynodedig; dim ond drwy raglenni ar y brif sianel deledu y gellir cyflawni cwotâu newyddion a materion cyfoes. (Adrannau 277-279 o’r Ddeddf.)

### Comisiynu

2.62 Mae'n ofynnol i PSBs trwyddedig gael Cod Ymarfer comisiynu ar waith.[45] Mae'r codau hyn yn nodi'r egwyddorion y bydd PSBs trwyddedig yn eu dilyn wrth gytuno ar delerau ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol.

2.63 Dylai'r PSB trwyddedig gadarnhau yn ei Gynllun SoPP fod ganddo God Ymarfer comisiynu ar waith, a bod hyn yn ystyried canllawiau Ofcom[46] wrth gomisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol.[47]

### Trefniadau rhwydweithio Sianel 3

2.64 Un o amodau trwyddedau Sianel 3 yw bod gan y trwyddedeion drefniadau rhwydweithio cymeradwy ar waith.[48]

2.65 Dylai trwyddedeion Sianel 3 gadarnhau yn eu Cynlluniau SoPP bod trefniadau rhwydweithio cymeradwy ar waith.[49]

## Canllawiau ar Adolygiadau SoPP

2.66 Mae'n ofynnol i PSBs trwyddedig *"fonitro eu perfformiad eu hunain wrth gyflawni'r cynigion sydd yn"* eu Cynllun SoPP.[50] Yn yr adran hon, rydym yn nodi ein canllawiau ynghylch sut dylai'r PSBs trwyddedig wneud hynny a'r wybodaeth fonitro y gallent ei chynnwys yn yr Adolygiad SoPP.

2.67 Yn ei Adolygiad SoPP, dylai'r PSB trwyddedig asesu sut mae wedi cyflawni ei Gynllun SoPP ar gyfer y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys a yw'r PSB, ar draws ei holl wasanaethau perthnasol, wedi cyflawni ei gylch gwaith unigol, sy'n cynnwys gwneud cyfraniad digonol at gylch gwaith cyffredinol y PSBs, a sut mae wedi gwneud hynny. Byddai'n ddefnyddiol i'r PSB trwyddedig ddilyn yr un strwythur, neu strwythur tebyg, â'i Gynllun SoPP er mwyn gallu cymharu. Gallai'r PSB trwyddedig hefyd groesgyfeirio at ddata sydd eisoes wedi'i ddarparu i ni at wahanol ddibenion drwy gydol ei Adolygiad SoPP.

2.68 Gallai Adolygiad SoPP sy'n dangos sut mae PSB trwyddedig yn cyflawni ei gylch gwaith gynnwys:

a) Asesiad ansoddol o berfformiad pob gwasanaeth perthnasol wedi'i gefnogi gan asesiad meintiol yn seiliedig ar dargedau, lle bo hynny'n berthnasol[51].
b) Data ar ffigurau cynulleidfaoedd, hyd yn oed os nad yw'r PSB trwyddedig wedi darparu ffigurau targed cynulleidfa penodol yn ei Gynllun SoPP am resymau masnachol.

---

[45] Adran 285 o'r Ddeddf.
[46] Canllawiau ar gyfer Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yng nghyswllt llunio Codau Ymarfer ar gyfer gwaith comisiynu gan gyfarwyddwyr annibynnol.
[47] Adran 266(2)(b) o'r Ddeddf.
[48] Adran 291(1) o'r Ddeddf.
[49] Adran 266(2)(b) o'r Ddeddf.
[50] Adran 266(1)(b) o'r Ddeddf.
[51] Gallai ffynonellau gwybodaeth gynnwys ffigurau cynulleidfaoedd, Traciwr PSM Ofcom, Arolwg Cael Gafael ar Newyddion, neu ymchwil cynulleidfa arall. Efallai y bydd PSBs trwyddedig hefyd yn dymuno croesgyfeirio at ddata sydd eisoes wedi cael ei ddarparu i Ofcom fel rhan o agweddau eraill ar y fframwaith rheoleiddio PSB.

c) Gwerthusiad o'r rhesymau pam nad yw amcanion neu dargedau wedi'u cyflawni, os yw'n berthnasol, a sut y bydd hyn yn llywio polisïau rhaglenni yn y dyfodol. Gall y PSB trwyddedig hefyd nodi unrhyw newidiadau a wnaed i’w bolisi rhaglenni ers cyhoeddi ei Gynllun SoPP, gan gynnwys y rheswm/rhesymau dros y newidiadau hynny.
d) Dylai Adolygiad SoPP hefyd gynnwys asesiad o berfformiad y PSB trwyddedig yn erbyn yr amcanion perthnasol ar gyfer cwotâu, comisiynu ac, ar gyfer trwyddedeion Sianel 3, cadarnhad eu bod wedi cymeradwyo trefniadau rhwydweithio.

## Gofynion cyhoeddi

2.69 Mae'n ofynnol i'r PSBs trwyddedig gyhoeddi SoPPs yn flynyddol[52] a "rhaid iddynt gael eu cyhoeddi gan ddarparwr y sianel dan sylw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gorffen eu paratoi".[53]

2.70 Yn ddelfrydol, dylai SoPPs gwmpasu blynyddoedd calendr gyda'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi fel a ganlyn:

a) **Cynllun SoPP**: dylid ei gyhoeddi cyn dechrau'r flwyddyn y mae'n ymwneud â hi (h.y. erbyn 31 Rhagfyr ar gyfer y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn galendr ganlynol);
b) **Adolygiad SoPP**: dylid ei gyhoeddi chwe mis fan bellaf ar ôl y flwyddyn y mae’n ymwneud â hi (h.y. erbyn 30 Mehefin ar gyfer adolygiadau sy’n cwmpasu’r flwyddyn galendr flaenorol).

2.71 Dylai dogfennau SoPP (h.y. Cynlluniau SoPP ac Adolygiadau SoPP) gael eu cyhoeddi ar adrannau hygyrch o wefannau PSBs trwyddedig, mewn fformat hygyrch, ac rydym yn gofyn i PSBs trwyddedig roi gwybod i ni pan fyddant yn gwneud hynny. Gellir cyhoeddi’r SoPPs ar gyfer gwasanaeth Sianel 3 yng Nghymru, Channel 4 a Channel 5 yn Gymraeg ac yn Saesneg.[54]

2.72 Mae’r rhwymedigaeth i gynhyrchu SoPP yn berthnasol i bob trwyddedai Sianel 3 ar wahân mewn perthynas â’u gwasanaethau trwyddedig perthnasol. Rydym yn cydnabod, yn ymarferol, y gallai fod yn briodol i rai trwyddedai Sianel 3 gynhyrchu dogfennau SoPP cyfun ar gyfer eu gwasanaethau Sianel 3. Os cynhyrchir dogfennau cyfun, rhaid nodi’n glir pa wasanaethau Sianel 3 y maent yn ymwneud â nhw.

[52] Adran 266(1)(a) o’r Ddeddf.
[53] Adran 266 (4)(d) o’r Ddeddf.
[54] Mater i S4C yw penderfynu a yw unrhyw rai o'r rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Gymraeg y mae'n ddarostyngedig iddynt o dan hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn berthnasol yn y cyd-destun hwn

# 3. Datganiadau cyfun C4C

3.1 Mae'r adran hon yn cynnwys ein canllawiau ar gyfer C4C wrth iddo gynhyrchu ei Gynllun SoPP a'i Gynllun SMCP cyfun ('Cynllun Cyfun'), ac Adolygiad SoPP ac Adolygiad SMCP cyfun ('Adolygiad Cyfun'), gan gynnwys manylion y fframwaith rheoleiddio, ein canllawiau a'n gofynion adrodd.

## Gofyniad i gynhyrchu a chyhoeddi SMCP

3.2 Mae gan C4C swyddogaethau statudol mewn perthynas â '*chynnwys cyfryngau*', yn ogystal â chylch gwaith unigol Channel 4 a'i gyfraniad at gylch gwaith cyffredinol y PSBs.[55] Mae'n ofynnol i C4C gynhyrchu SMCP blynyddol[56], sy'n nodi ei gynigion ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau cynnwys cyfryngau hyn yn y flwyddyn ganlynol, ac Adolygiad SoPP ar gyfer y flwyddyn flaenorol.[57]

3.3 Rhaid i'r SMCP gael ei baratoi ar yr un pryd â SoPP C4C, a rhaid i C4C roi sylw i'n canllawiau ac ymgynghori â ni wrth ei baratoi. Mae rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol yn Atodiad 2.

3.4 Gall C4C gyflawni ei ofynion adrodd SoPP ac SMCP drwy Gynllun Cyfun ac Adolygiad Cyfun, os yw'n dymuno. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â dyletswyddau SMCP C4C yng nghyd-destun datganiadau cyfun o'r fath.

## Canllawiau ar Gynllun Cyfun C4C

3.5 Rhaid i Gynllun Cyfun C4C fodloni'r holl ofynion ar gyfer Cynlluniau SoPP, ac felly rhaid i C4C roi sylw i Adran 2 y canllawiau hyn. Dylai Cynllun Cyfun C4C hefyd ymdrin â'i ofynion cylch gwaith unigol, ei bolisi cynnwys cyfryngau, a gofynion adrodd ychwanegol sy'n ymwneud â chomisiynu, a drafodir yn yr adran hon.

### Cylch gwaith unigol Channel 4

3.6 Drwy gydol ei drafodaeth ar ei Gynllun Cyfun, dylai C4C amlinellu sut, wrth gyfrannu at gylch gwaith cyffredinol y PSB, y bydd yn cyflawni gofynion cylch gwaith penodol Channel 4 i wneud y canlynol:

a) dangos arloesedd, arbrofi a chreadigrwydd o ran ffurf a chynnwys rhaglenni;
b) apelio at chwaethau a diddordebau cymdeithas ddiwylliannol amrywiol;
c) cynnwys nifer ac amrywiaeth sylweddol o raglenni o natur addysgol a rhaglenni eraill o werth addysgol;
d) dangos cymeriad unigryw.

[55] Adran 198A o'r Ddeddf. Mae'r rhain yn ychwanegol at ei gylch gwaith a'i gyfraniad at gylch gwaith cyffredinol y PSBs.
[56] Adran 198B(1) o'r Ddeddf.
[57] Adran 198B o'r Ddeddf.

## Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau

3.7 Rhaid i Gynllun Cyfun C4C nodi ei gynigion ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau yn ystod y flwyddyn ganlynol. Mae dyletswyddau C4C o ran cynnwys cyfryngau wedi'u nodi yn Atodiad 2 y canllawiau hyn.

3.8 Mae 'cynnwys cyfryngau', sy'n berthnasol i berfformiad y rhan fwyaf – ond nid y cyfan – o'r dyletswyddau cynnwys cyfryngau, yn cynnwys rhaglenni, yn ogystal â chynnwys cyfryngau ar-lein eraill fel podlediadau, radio rhyngrwyd, ffrydiau sain neu gerddoriaeth, gwefannau, neu gemau. Gall C4C felly ddefnyddio rhaglenni ar ei wasanaethau perthnasol, ac sy'n cael eu defnyddio i gyfrannu at gyflawni cylch gwaith, i gyfrannu hefyd at berfformiad rhai o'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau.

3.9 Felly, er bod dyletswyddau cynnwys cyfryngau C4C a'i ofynion cylch gwaith yn ddyletswyddau statudol ar wahân, rydym yn cydnabod y gall fod rhywfaint o orgyffwrdd rhyngddynt yn ymarferol.

3.10 I'r graddau y mae C4C yn bwriadu defnyddio unrhyw un o'i raglenni ar wasanaethau perthnasol i gyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau, dylid egluro hyn yn glir yn y Cynllun Cyfun. Ar ben hynny, dylai C4C nodi a fydd cynnwys cyfryngau ar-lein ar wahân i raglenni yn cael ei ddefnyddio i gyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau, a sut. Dylai C4C hefyd nodi ei gynigion ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau mewn perthynas â ffilmiau.

## Comisiynu y tu allan i Loegr

3.11 Yn ogystal â'r gofynion adrodd ar gomisiynu ym mharagraffau 2.62-63, dylai C4C nodi:

a) sut mae ei ddull o gomisiynu y tu allan i Loegr yn cefnogi ac yn ysgogi'r sector cynhyrchu teledu yn y gwledydd, gan gynnwys sut mae'n galluogi mynediad at gomisiynwyr;
b) ei strategaeth ar gyfer comisiynu ym mhob gwlad unigol yn ystod y flwyddyn nesaf;
c) ei gynlluniau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd yn y gwledydd yn ystod y flwyddyn nesaf.

# Canllawiau ar Adolygiad Cyfun C4C

3.12 Mae'r canllawiau Adolygu SoPP (paragraffau 2.66-68 y ddogfen hon) yn berthnasol i C4C mewn perthynas â'i adolygiad o'i gylch gwaith, a chyflawni ei gwota a'i ofynion comisiynu.

3.13 Dylai Adolygiad Cyfun C4C hefyd roi sylw i'w berfformiad mewn perthynas â chyflawni'r holl bolisïau a nodau a nodir yn ei Gynllun Cyfun, gan gynnwys ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau a chomisiynu y tu allan i Loegr.

# Cyhoeddi Cynllun Cyfun ac Adolygiad Cyfun C4C

3.14 Mae'r canllawiau ar gyfer cyhoeddi SoPPs (paragraffau 2.69-71 y ddogfen hon) yn berthnasol i Gynllun Cyfun ac Adolygiad Cyfun C4C:

a) **Cynllun Cyfun**: dylid ei gyhoeddi cyn dechrau'r flwyddyn y mae'n ymwneud â hi (h.y. erbyn 31 Rhagfyr ar gyfer y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn galendr ganlynol);
b) **Adolygiad Cyfun**: dylid ei gyhoeddi chwe mis fan bellaf ar ôl y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi (h.y. erbyn 30 Mehefin ar gyfer adolygiadau sy'n cwmpasu'r flwyddyn galendr flaenorol).

3.15 Byddwn yn ymgysylltu â C4C yn barhaus wrth iddo baratoi ei Gynllun Cyfun a'i Adolygiad Cyfun, i gydnabod dyletswydd statudol C4C i ymgynghori â ni wrth baratoi ei SMCP. Gall hyn gynnwys cytuno ar fetrigau y bydd C4C yn eu defnyddio i asesu ei berfformiad yn erbyn ei ddyletswyddau a'i ofynion o ran cynnwys cyfryngau.

# A1. Fframwaith cyfreithiol sy’n berthnasol i SoPPs

A1.1 Yn yr atodiad hwn, rydym yn crynhoi'r darpariaethau statudol sy'n berthnasol i baratoi SoPP gan y PSBs trwyddedig. Dim ond crynodeb o’r darpariaethau perthnasol yw’r Atodiad hwn, nid yw’n disodli cyfeiriad at y statud.

A1.2 Yn gyntaf, rydym yn nodi cylchoedd gwaith unigol y PSBs trwyddedig, gofynion cylch gwaith cyffredinol y PSBs y mae’r PSBs yn gyfrifol ar y cyd am ei gyflawni, a'r darpariaethau ynghylch y gwahanol wasanaethau clyweledol y gallant eu defnyddio i wneud hynny. Rydym wedyn yn nodi dyletswydd y PSBs trwyddedig i gynhyrchu SoPPs ac yn amlinellu rhai o swyddogaethau Ofcom y mae SoPPs yn berthnasol iddynt.

## Cylchoedd gwaith PSBs unigol

A1.3 Mae gan bob PSB gylch gwaith unigol y mae’n rhaid iddynt ei gyflawni.

A1.4 Cylch gwaith unigol gwasanaethau Sianel 3 a Channel 5 yw sicrhau bod amrywiaeth o raglenni amrywiol o ansawdd uchel ar gael.[58]

A1.5 Cylch gwaith unigol Channel 4 yw sicrhau bod ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel.[59] Yn benodol, rhaid i’r rhaglenni hyn wneud y canlynol:

a) dangos arloesedd, arbrofi a chreadigrwydd;
b) apelio at chwaethau a diddordebau cymdeithas ddiwylliannol amrywiol;
c) cynnwys llawer iawn o gynnwys addysgol;
d) dangos cymeriad unigryw.

A1.6 Yn ogystal, mae cylch gwaith unigol pob PSB trwyddedig yn ei gwneud yn ofynnol bod modd ystyried yr holl raglenni y mae'r PSB yn eu darparu i gyflawni ei gylch gwaith unigol at ddibenion asesu i ba raddau mae cylch gwaith cyffredinol y PSBs yn cael ei gyflawni, ac wrth eu hystyried gyda'i gilydd, dylent fod yn gyfraniad digonol at gyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs.

## Cylch gwaith cyffredinol y PSBs

A1.7 Dibenion cylch gwaith cyffredinol y PSBs yw bod y PSBs (y BBC, y PSBs trwyddedig ac S4C), gyda'i gilydd, yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys clyweledol sy'n diwallu anghenion ac yn bodloni diddordebau cymaint o gynulleidfaoedd gwahanol â phosibl, gan ystyried pryd a sut y mae pobl yn cael gafael ar y rhaglenni, yn ogystal â natur y rhaglenni a'r pynciau sy’n cael sylw ganddynt.[60] Wrth benderfynu i ba raddau y mae'r cynnwys sydd ar gael gan y

[58] Adran 265(2) o’r Ddeddf.
[59] Adran 265(3) o’r Ddeddf.
[60] Adran 264(4) o’r Ddeddf.

PSBs wedi cyflawni'r dibenion hyn, rhaid i Ofcom ystyried a yw'r cynnwys hwnnw yn un o’r canlynol: [61]

a) cynnwys sy’n darparu cynnwys newyddion a materion cyfoes cynhwysfawr ac awdurdodol, yn y DU (ac mewn gwahanol rannau o’r DU) ac yn fyd-eang, fel sy’n briodol i hwyluso dealltwriaeth ddinesig a thrafodaeth deg a gwybodus;
b) gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer gwybodaeth, addysg ac adloniant, ac sy'n cynnwys:
    i) digon o gynnwys clyweledol sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau’r DU a diddordebau a thraddodiadau diwylliannol;
    ii) digon o gynnwys clyweledol mewn Cymraeg, Gaeleg, Gwyddeleg, Albaneg, Albaneg Ulster, neu Gernyweg, neu’n bennaf yn yr ieithoedd hynny;
c) ystod a swm priodol o gynnwys mewn cynyrchiadau gwreiddiol sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon plant a phobl ifanc yn y DU, sy'n addysgiadol, ac yn eu helpu i ddeall y byd;
d) amrywiaeth priodol a nifer addas o gynyrchiadau annibynnol, cynyrchiadau gwreiddiol, a rhaglenni sy’n cael eu gwneud y tu allan i’r M25;
e) cynnwys sy’n cynrychioli ystod briodol o genres.[62]

A1.8 Felly, cydgyfrifoldeb yr holl PSBs yw cylch gwaith cyffredinol y PSBs, i'w gyflawni ganddynt gyda'i gilydd drwy'r cynnwys clyweledol y maent yn ei ddarparu. Fel rhan o'u cylchoedd gwaith unigol, rhaid i bob PSB trwyddedig wneud cyfraniad digonol at gylch gwaith cyffredinol y PSBs ond mae ganddynt hyblygrwydd o ran sut maent yn gwneud hynny.

## Gwasanaethau clyweledol perthnasol

A1.9 Yn dilyn deddfu Deddf Cyfryngau 2024, mae’r PSBs trwyddedig yn gallu defnyddio gwasanaethau clyweledol perthnasol ochr yn ochr â’u prif sianel deledu i gyfrannu at gyflawni eu cylch gwaith, gan gynnwys:

a) sianeli teledu eraill;
b) gwasanaethau rhaglenni ar-alw, gan gynnwys chwaraewr ar-alw y PSB ei hun, a elwir yn IPS;
c) gwasanaethau ar-lein, neu adrannau o wasanaethau ar-lein sy’n bodloni’r meini prawf a ddisgrifir isod.[63]

A1.10 Er y gellir defnyddio unrhyw nifer o wasanaethau clyweledol perthnasol i gyflawni’r cylch gwaith, dim ond y brif sianel deledu a'r IPS dynodedig (os yw’n berthnasol) ar gyfer pob PSB trwyddedig y gellir eu defnyddio at ddibenion cyflawni cwota cynyrchiadau gwreiddiol, annibynnol a rhanbarthol.[64] Dim ond y brif sianel deledu y gellir ei defnyddio at ddibenion cyflawni cwota newyddion a materion cyfoes.[65]

[61] Adran 264(4)-(6) o’r Ddeddf.
[62] Adran 264(5) - (6) o’r Ddeddf.
[63] Adran 264(11) o’r Ddeddf.
[64] Adran 278B o’r Ddeddf.
[65] Adran 279 o’r Ddeddf.

A1.11 Rhaid i wasanaethau clyweledol perthnasol naill ai gael eu darparu gan y PSB neu eu darparu gan berson arall o dan drefniadau rhwng y PSB a'r person hwnnw.[66]

A1.12 Er mwyn gallu cael eu hystyried at ddibenion cyfrannu at gylch gwaith cyffredinol y PSBs, rhaid i'r PSBs trwyddedig sicrhau bod eu rhaglenni a'u gwasanaethau clyweledol perthnasol yn hygyrch ar ffurf ddealladwy ac yn rhad ac am ddim i gymaint o'r gynulleidfa darged ag sy'n rhesymol ymarferol.[67]

A1.13 Ac eithrio'r sylw a roddir i newyddion a digwyddiadau chwaraeon, dim ond os ydynt wedi bod ar gael am o leiaf 30 diwrnod yn ddi-dor y gall rhaglenni sy'n cael eu darparu gan wasanaethau rhaglenni ar-alw gyfrif tuag at gyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs.[68]

### Gwasanaethau ar-lein

A1.14 Rhaid bodloni meini prawf penodol ar gyfer gwasanaeth ar-lein neu ran o wasanaeth ar-lein (fel cyfrif neu sianel o fewn llwyfan ar-lein) i gymhwyso fel gwasanaeth clyweledol perthnasol. Yn benodol:

a) rhaid mai prif ddiben y gwasanaeth ar-lein yw darparu rhaglenni;
f) rhaid bod unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros ba raglenni sy'n cael eu cynnwys yn y gwasanaeth (p'un a oes gan yr unigolyn hwnnw reolaeth dros gynnwys rhaglenni unigol neu ddosbarthiad y gwasanaeth ai peidio); [69]
g) rhaid i'r gwasanaeth ar-lein fod ar gael i'w ddefnyddio gan y cyhoedd yn y DU i gyd neu ran ohoni (mae hyn yn cynnwys gwasanaethau tanysgrifio am ddim sydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd).[70]

A1.15 Wrth benderfynu a yw'r amod '*rheolaeth gyffredinol*' wedi'i fodloni, byddwn yn ystyried, ymysg pethau eraill, a oes rhywun – a allai fod y PSB neu'n rywun arall – sy'n penderfynu pa raglenni sydd ar gael, sut mae'r rhaglenni hynny wedi'u trefnu, ac am ba hyd y byddant ar gael i'w gwylio.

## Gofynion adrodd

A1.16 Yn ôl amodau rydym wedi'u cynnwys yn nhrwyddedau PSBs trwyddedig, mae'n ofynnol iddynt gynhyrchu SoPPs yn flynyddol.[71] Rhaid i SoPP:

a) nodi sut y bydd cylch gwaith unigol y PSB trwyddedig, sy'n cynnwys gwneud cyfraniad digonol at gylch gwaith cyffredinol y PSBs, yn cael ei gyflawni yn y flwyddyn ganlynol;
h) nodi sut bydd dyletswyddau'r PSB trwyddedig sy'n ymwneud â chwotâu rhaglenni, darpariaeth newyddion, gwneud rhaglenni rhanbarthol, comisiynu ac, ar gyfer trwyddedeion Sianel 3, trefniadau rhwydweithio yn cael eu cyflawni;[72]

[66] Adran 264(13) o'r Ddeddf.
[67] Adran 264(8) o'r Ddeddf.
[68] Adran 264(8B) o'r Ddeddf.
[69] Adran 264(11A) o'r Ddeddf.
[70] Adran 264(11B) o'r Ddeddf.
[71] Adran 266 o'r Ddeddf.
[72] Mae'r dyletswyddau hyn wedi'u nodi yn Adrannau 277 - 296 o'r Ddeddf.

i) datgan pa wasanaethau clyweledol perthnasol a fydd yn cael eu defnyddio i gyfrannu at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB trwyddedig, ac os felly, sut; a chynnwys adolygiad perfformiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

A1.17 Wrth baratoi SoPPs, rhaid i'r PSB trwyddedig roi sylw i ganllawiau Ofcom, ystyried adroddiadau ffeithiol ac ystadegol blynyddol Ofcom ac adolygiadau PSM, a rhoi sylw arbennig i'r rhai diweddaraf. Rhaid iddynt gyhoeddi'r SoPP cyn gynted â phosib ar ôl iddo gael ei gwblhau, gan roi sylw i ganllawiau Ofcom ynghylch y dull cyhoeddi.

A1.18 Mae'n rhaid i S4C hefyd baratoi SoPP bob blwyddyn a rhoi sylw i ganllawiau Ofcom wrth wneud hynny.[73] Fodd bynnag, yn wahanol i'r PSBs trwyddedig, nid oes gan Ofcom rôl o ran gorfodi cylch gwaith unigol S4C. Mae'r rôl honno'n perthyn i'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n gyfrifol am adolygu perfformiad S4C a sut mae'n cyflawni ei gylch gwaith unigol.[74] Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn dod i'r casgliad bod S4C wedi methu mewn unrhyw ffordd â chyflawni ei ddyletswydd i gyflawni ei gylch gwaith unigol, gall gyfarwyddo S4C i gymryd camau unioni.[75]

# Rôl Ofcom

A1.19 Mae gan SoPPs rôl bwysig mewn perthynas â nifer o swyddogaethau Ofcom. Wrth gyflawni ein swyddogaethau isod, rhaid i ni weithredu yn unol â'n dyletswyddau statudol gan gynnwys ein dyletswyddau cyffredinol a nodir o dan Adran 3 o'r Ddeddf. Mae ein swyddogaethau'n cynnwys:

## Adolygiadau PSM

A1.20 Mae SoPPs yn cael eu defnyddio i gyfrannu at adolygiadau PSM Ofcom (a fydd yn cael eu cynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd) sy'n ystyried sut PSB wedi cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU ac wedi cyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs.[76] Mae'r adolygiadau hyn hefyd yn edrych ar yr heriau yn y dyfodol o ran darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gyda'r bwriad o gynnal a chryfhau ei ansawdd.

## Gorfodi cylch gwaith

A1.21 Gall Ofcom benderfynu bod PSB trwyddedig wedi methu mewn unrhyw ffordd â chyflawni ei gylch gwaith unigol, mewn modd nad yw'n cael ei esgusodi gan amodau economaidd neu'r farchnad. Wrth wneud y penderfyniad hwn, rhaid i Ofcom ystyried SoPP y PSB trwyddedig ynghyd â ffactorau perthnasol eraill. Os bydd Ofcom yn penderfynu bod methiant difrifol wedi digwydd, mae gan Ofcom yr awdurdod i gyfarwyddo'r PSB trwyddedig i gymryd camau cywiro, gan gynnwys diwygio ei SoPP.[77] Fel y nodwyd ym mharagraff A1.18 uchod, rôl yr Ysgrifennydd Gwladol, nid Ofcom, yw adolygu perfformiad S4C a sut mae'n cyflawni ei gylch gwaith unigol.

---

[73] Paragraff 4, Rhan 2 o Atodlen 12 o'r Ddeddf.
[74] Adran 339 o'r Ddeddf.
[75] Adran 340 o'r Ddeddf.
[76] Adran 264(9)(a) o'r Ddeddf.
[77] Adran 270 o'r Ddeddf.

## Newidiadau sylweddol

A1.22 Rhaid ymgynghori ag Ofcom, cyn i PSB trwyddedig baratoi eu SoPPs, ar unrhyw gynigion ar gyfer '*newid sylweddol*'. Mae '*newid sylweddol*' yn newid a fyddai'n golygu bod cymeriad y gwasanaeth clyweledol perthnasol yn sylweddol wahanol i'r hyn a oedd mewn blynyddoedd blaenorol.[78] Gall croniad o newidiadau, neu newid graddol dros hyd at dair blynedd, hefyd fod yn newid sylweddol. Rhaid i PSBs trwyddedig ystyried canllawiau Ofcom wrth benderfynu a yw newid yn newid sylweddol a rhaid iddynt hefyd ystyried unrhyw farn a fynegir gan Ofcom mewn perthynas ag unrhyw gynigion ar gyfer newid sylweddol wrth baratoi eu SoPPs.[79]

## Dynodi a monitro IPS

A1.23 Mae gan SoPPs hefyd ran bwysig yn y drefn argaeledd ac amlygrwydd yn Rhan 3A o'r Ddeddf, yn enwedig y broses ddynodi ar gyfer IPS a ddarperir gan PSB trwyddedig neu S4C, neu unigolyn sy'n gysylltiedig â PSB trwyddedig neu S4C.[80] Y rheswm am hyn yw ei bod yn rhaid i Ofcom fod yn fodlon bod amodau penodol yn cael eu bodloni cyn y gall ddynodi IPS. Mae'r rhain yn cynnwys bod yr IPS yn gwneud, neu'n gallu gwneud, cyfraniad sylweddol at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB hwnnw a bod rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn yr IPS i gyfrannu at y cylch gwaith yn hawdd eu canfod ac yn cael eu hyrwyddo gan y gwasanaeth. Wrth wneud ein hasesiad, rhaid i ni ystyried y cynigion mewn SoPP PSB o ran y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB. Rhaid i ni hefyd ystyried pa mor effeithiol ac effeithlon yw gwaith y PSB o fonitro ei berfformiad o ran cyflawni ei gylch gwaith unigol.[81]

## Hygyrchedd

A1.24 Mae gan Ofcom ddyletswydd i annog darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw i ddatblygu cynlluniau gweithredu hygyrchedd gyda'r nod o wneud gwasanaethau o'r fath yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau yn barhaus ac yn raddol.[82] Mae hyn wedi'i gynnwys yn y canllawiau hyn.

## Cynnwys plant

A1.25 Ar wahân i'n pwerau gorfodi cylch gwaith, mae gan Ofcom y pŵer i gyhoeddi meini prawf i'w cymhwyso i ddarpariaeth rhaglenni plant y PSBs trwyddedig.[83] Gellir ystyried SoPPs pan fyddwn yn penderfynu a ddylid cyflwyno, adolygu neu ddiwygio meini prawf o'r fath.

---

[78] Adran 267 o'r Ddeddf.
[79] Adran 267(2)(b) o'r Ddeddf.
[80] Rhan 3A o'r Ddeddf.
[81] Adran 362AA(7)(c) o'r Ddeddf.
[82] Adran 368C(2) o'r Ddeddf.
[83] Adran 289A o'r Ddeddf.

## Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

A1.26 Mae dyletswyddau Ofcom o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn cynnwys dyletswyddau i annog eraill i wella ymwybyddiaeth o’r cyfryngau.[84] Wrth gyflawni swyddogaethau Ofcom yng nghyswllt ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, rydym wedi cynnwys gweithgarwch ymwybyddiaeth o'r cyfryngau y PSBs yn y canllawiau hyn.

[84] Adran 11(1) o’r Ddeddf.

# A2. Fframwaith cyfreithiol sy’n berthnasol i SMCPs

## Dyletswyddau cynnwys cyfryngau C4C

A2.1 Yn ogystal â'r gofynion cylch gwaith unigol ar gyfer gwasanaeth Channel 4, mae gan C4C gyfres o ddyletswyddau sy'n ymwneud â '*chynnwys cyfryngau perthnasol*'. Diffinnir hyn fel deunydd, ar wahân i hysbysebion, sydd wedi’i gynnwys mewn sianeli teledu, gwasanaethau ar-alw, neu wasanaethau rhyngrwyd lle mae person – a allai fod yn C4C neu berson arall – sy’n arfer rheolaeth olygyddol dros y deunydd sydd wedi’i gynnwys yn y gwasanaeth.[85]

A2.2 Dyletswyddau C4C yw ‘*cymryd rhan mewn*’:[86]

a) creu ystod eang o gynnwys cyfryngau perthnasol o ansawdd uchel sydd, wrth eu hystyried gyda’i gilydd, yn apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas amrywiol yn ddiwylliannol;

b) creu ffilmiau o ansawdd uchel y bwriedir eu dangos i'r cyhoedd yn y sinema yn y Deyrnas Unedig;

c) darlledu a dosbarthu cynnwys a ffilmiau o’r fath;

d) creu cynnwys cyfryngau perthnasol sy’n cynnwys newyddion a materion cyfoes;

e) creu cynnwys cyfryngau perthnasol sy’n apelio at chwaeth a diddordebau plant hŷn ac oedolion ifanc;

f) darlledu neu ddosbarthu, drwy rwydweithiau cyfathrebu electronig, ffilmiau sy’n adlewyrchu gweithgarwch diwylliannol yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys ffilmiau trydydd parti)[87];

g) darlledu neu ddosbarthu cynnwys cyfryngau perthnasol drwy amrywiaeth o fathau gwahanol o rwydweithiau cyfathrebiadau electronig.

A2.3 Wrth gyflawni’r dyletswyddau hyn, rhaid i C4C:

a) hybu mesurau sydd wedi’u bwriadu i sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth a chymhelliant i gymryd rhan mewn cymdeithas mewn amrywiaeth o ffyrdd;

b) cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r amcanion gwasanaeth cyhoeddus a nodir yn adran 264A o’r Ddeddf;

c) cefnogi datblygiad pobl â thalent greadigol, yn enwedig pobl ar ddechrau eu gyrfaoedd mewn cynnwys cyfryngau perthnasol neu ffilmiau, a phobl sy’n ymwneud â chreu cynnwys a ffilmiau arloesol;

[85] Adran 198A(5) o’r Ddeddf.
[86] Diffinnir ‘*cymryd rhan mewn*’ fel buddsoddi mewn neu gaffael fel arall dan Adran 198A(6) o’r Ddeddf.
[87] Diffinnir ‘*ffilm trydydd parti*’ fel ffilm nad oedd C4C wedi cymryd rhan yn y broses o’i chynhyrchu dan Adran 198A(6) o’r Ddeddf.

d) cefnogi ac ysgogi dadl ar sail gwybodaeth ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys drwy ddarparu mynediad at wybodaeth a safbwyntiau o bob rhan o'r byd a herio safbwyntiau sydd wedi ennill eu plwyf;

e) hyrwyddo barn wahanol a safbwyntiau newydd;

f) darparu mynediad at ddeunyddiau sydd wedi'u bwriadu i ysbrydoli pobl i wneud newidiadau yn eu bywydau.

A2.4 Rhaid i C4C hefyd ystyried pa mor ddymunol yw gweithio gyda sefydliadau diwylliannol; annog arloesi o ran darlledu neu ddosbarthu cynnwys cyfryngau perthnasol; a hyrwyddo mynediad at ei wasanaethau a ddarperir ar ffurf ddigidol ac ymwybyddiaeth ohonynt.[88]

## Gofynion adrodd

A2.5 Mae'n ofynnol i C4C gynhyrchu SMCP blynyddol, y mae'n rhaid iddo nodi ei gynigion ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau cynnwys cyfryngau yn y flwyddyn ganlynol, ac adolygiad perfformiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol.[89] Rhaid i'r SMCP gael ei baratoi ar yr un pryd â SoPP C4C, a rhaid i C4C roi sylw i ganllawiau Ofcom ac ymgynghori ag Ofcom wrth ei baratoi.[90] Rhaid i C4C gyhoeddi'r SMCP cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei gwblhau, gan roi sylw i ganllawiau Ofcom ynghylch y dull cyhoeddi.

## Rôl Ofcom

A2.6 Yn yr un modd â'n pwerau gorfodi cylch gwaith, gall Ofcom benderfynu bod C4C wedi methu â chyflawni un neu fwy o'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau. Wrth wneud hynny, rhaid i ni ystyried SMCP C4C (yn ymarferol, gall hwn fod yn ddatganiad cyfun) ynghyd â ffactorau perthnasol eraill. Os byddwn yn penderfynu nad yw C4C yn cyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau, mae gennym yr awdurdod i gyfarwyddo C4C i gymryd camau cywiro, gan gynnwys diwygio ei SMCP.[91]

A2.7 Wrth gyflawni ein swyddogaethau, rhaid i ni weithredu yn unol â'n dyletswyddau statudol gan gynnwys ein dyletswyddau cyffredinol a nodir o dan Adran 3 o'r Ddeddf.

[88] Adran 198A(5) o'r Ddeddf.
[89] Adran 198B o'r Ddeddf.
[90] Nid yw dyletswydd C4C i ymgynghori ag Ofcom yn berthnasol i PSBs trwyddedig eraill, sydd ond yn gorfod ymgynghori â ni mewn perthynas â newidiadau sylweddol.
[91] Adran 198D o'r Ddeddf.